**<u>Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth MID 02-01(p.1)</u>**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 18 Mai 2001

**Amser:** 10.30am i 1.00pm

**Lleoliad:** Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

**ADOLYGU GWEITHDREFN Y CYNULLIAD**

**CWMPAS A CHYLCH GORCHWYL YR ADOLYGIAD – DIWYGIEDIG**

1. Ar 12 Gorffennaf, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru adolygiad i drafod sut y bu'r Cynulliad yn gweithredu yn ystod ei flwyddyn gyntaf, ac i sefydlu beth y gellid ei ddysgu o hynny. Gwnaeth hyn gyda chefnogaeth lawn ac ar ôl derbyn cymeradwyaeth y Llywydd, arweinwyr Plaid Cymru, y Blaid Geidwadol yng Nghymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

2. Mae'r ddogfen hon yn ehangu ar gylch gorchwyl yr adolygiad ac yn awgrymu rhai pynciau y gallai'r rhai sydd am gyfrannu wneud sylwadau arnynt yn ysgrifenedig. Er hynny, mae croeso i'r cyfranwyr wneud sylwadau ar unrhyw fater o fewn cylch gwaith eang yr adolygiad, fel y'i amlinellir isod.

**Trefniadau ymarferol**

3. Yn unol â datganiad y Prif Weinidog, bydd y canlynol yn y grp adolygu:

- Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd. Bydd un ohonynt yn cadeirio'r cyfarfodydd;
- Prif Weinidog Cymru;
- Arweinwyr pleidiau eraill y Cynulliad;
- Y Trefnydd;
- Trefnwyr busnes pleidiau eraill y Cynulliad.

Gall unrhyw un o'r uchod, ar wahân i'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd, enwebu eilyddion i fynychu'r cyfarfodydd na fyddant yn gallu eu mynychu eu hunain.

4. Mae pob aelod o'r grp adolygu wedi cytuno y bydd yn gweithredu ar yr egwyddorion canlynol:

- Dylid cael consenswс pob plaid, i'r graddau y mae'n bosibl, wrth ddatblygu'r adolygiad. Dylai ganolbwyntio felly ar waith y Cynulliad yn hytrach nag ar faterion polisi;
- Er mwyn cyflwyno cynigion y gallai'r Cynulliad eu gweithredu'n gyflym, ni ddylai'r adolygiad wneud argymhellion ble y byddai'n rhaid newid Deddf Llywodraeth Cymru neu unrhyw ddeddfwriaeth arall sydd y tu hwnt i allu'r Cynulliad i'w diwygio;
- Fel arfer bydd y grp adolygu yn cyfarfod yn gyhoeddus a, pan fo'n briodol, dylai wrando ar gyfraniadau llafar oddi wrth y rhai hynny sydd â diddordeb, o'r tu mewn neu o'r tu allan i'r Cynulliad;
- Dylai'r grp adolygu gyfarfod o leiaf unwaith bob mis, ond ni ddylid cynnal unrhyw gyfarfod os bydd un neu fwy o bleidiau'r Cynulliad yn methu â chael rhywun i'w cynrychioli;
- Nod y grp adolygu fydd gwneud yr argymhellion terfynol y gwahoddir y Cynulliad i'w gweithredu erbyn Tachwedd 2001, a gall wneud argymhellion dros dro i'w cymeradwyo gan y Cynulliad pe credir eu bod yn deilwng;
- Ni ddylai'r adolygiad niweidio nac achosi oedi i'r broses o gyflwyno diwygiadau neilltuol a/neu mân ddiwygiadau i reolau sefydlog y Cynulliad drwy'r Pwyllgor Busnes yn y ffordd arferol.

5. Ysgrifenyddiaeth yr adolygiad fydd:

- Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau, Swyddfa'r Llywydd;
- Adrian Crompton, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau, Swyddfa'r Llywydd;
- Bryan Mitchell, Pennaeth Gweithrediaeth y Cabinet;
- Steve Pomeroy, Pennaeth Materion Cyfansoddiadol, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau.

6. Rôl yr Ysgrifenyddiaeth fydd cefnogi'r adolygiad a'r grp adolygu yn ei waith. Bydd yn cynhyrchu papurau a chofnodion fel bo'r angen, a'r Ysgrifenyddiaeth fydd pwynt cyswllt cyntaf Aelodau ac eraill sydd am gyfrannu at waith yr adolygiad.

7. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cyhoeddi gwaith yr adolygiad, gan gynnwys yr agendâu, y papurau a chofnodion y cyfarfodydd y cytunwyd arnynt, ar y Rhyngrwyd a'r Fewnrwyd, a thrwy unrhyw ddull arall fel bo'n addas.

**Hynt yr Adolygiad**

8. Nod yr adolygiad fydd dechrau gydag archwiliad cyffredinol o agweddau o waith y Cynulliad a sut y gellid, mewn egwyddor, ei wella. Gwneir hyn gan mwyaf ar sail cyfraniadau ysgrifenedig. Wedi hynny bydd yr adolygiad yn trafod y meysydd allweddol yn fanylach, gan

anelu yn y pen draw at gynhyrchu cynigion penodol i'w cymeradwyo gan y Cynulliad. Gall y cynigion hyn fod ar ffurf newidiadau i'r rheolau sefydlog, canllawiau ac arferion gwaith newydd neu ddiwygiedig, neu ar ffurf arall.

9. Ar hyn o bryd, felly, gelwir am gyfraniadau yn ymwneud â phynciau cyffredinol ynghylch sut y mae'r Cynulliad a'i wahanol rannau wedi gweithredu a chydgysylltu â'i gilydd ers ei sefydlu, a sut y gellid gwella hynny mewn egwyddor. Er y caiff cyfraniadau ar unrhyw bwnc eu croesawu, a'u trin yn gyfartal, efallai yr hoffai'r cyfranwyr ystyried gwneud sylwadau ar rai neu ar bob un o'r materion yn yr atodiad amgaeedig. Dylid anfon sylwadau at yr Ysgrifenyddiaeth, gweler uchod, drwy lythyr, neu drwy e-bost ar review@wales.gsi.gov.uk.

**Grwp Adolygu Rhagfyr 2000**

## ATODIAD

## MATERION POSIBL I'W HYSTYRIED

Lluniodd yr Ysgrifenyddiaeth restr o faterion fel canllaw ar gyfer cyfranwyr wrth iddynt baratoi eu cyflwyniadau ysgrifenedig i'r adolygiad. Er i'r rhestr gael ei chymeradwyo gan bob aelod o'r grp adolygu, ni fwriedir rhwystro cyfranwyr rhag cyflwyno sylwadau ar unrhyw fater arall o fewn amcanion eang yr adolygiad. Ni ddylai cyfranwyr ychwaith deimlo bod rhaid iddynt roi sylwadau ar bob un o'r materion isod.

Er hynny, dylai cyfranwyr gofio na fydd yr adolygiad yn trafod cwestiynau ynghylch polisïau'r Cynulliad, ac ni wnaiff gynhyrchu argymhellion ble byddai'n rhaid newid cytundeb datganoli Cymru a/neu Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Anogir y cyfranwyr felly i gadw o fewn y cyfyngiadau uchod wrth baratoi eu hymateb.

### 1. Gweithdrefnau mewnol y Cynulliad

Y Cabinet a'i berthynas â gweddill y Cynulliad

Dadleuon y Cyfarfod Llawn: eu pwrpas, eu cynnwys a'r canlyniadau

Rôl a gwaith y pwyllgorau pwnc – datblygu ac archwilio polisi

Rôl a gwaith y pwyllgorau rhanbarth

Rôl a gwaith pwyllgorau sefydlog y Cynulliad (ar Ewrop a Chyfle Cyfartal er enghraifft)

**Gweithdrefnau is-ddeddfwriaeth**

2. Y Cynulliad, Cymru a thu hwnt

Perthynas y Cynulliad â phob rhan o Gymru

Y Cynulliad a’i bartneriaid: busnes, y sector gwirfoddol a llywodraeth leol

Y Cynulliad, Llywodraeth y DU a San Steffan

Perthynas y Cynulliad â’r Undeb Ewropeaidd

Y berthynas ar y ddwy ochr rhwng y Cynulliad a llywodraethau cenedlaethol a rhanbarthol eraill